

BI7: Gwers 10: Cestyll
Nod y Wers: O le daeth Cestyll Prydain?
Gwers 10: BI7/8: Hanes: Cestyll

Dechreuad: Sgiliau Meddwl (Map Meddwl)



Tasg 1: Darllennwch y wybodaeth isod. Nodwch wybodaeth o gwmpas y map meddwl uchod.

Tasg 2: Uwcholuwch (highlight) 4 ffaith yn y darn darllen isod.

Dechreuodd cestyll ymddangos ar draws Ewrop canol oesol yn ystod yr 9fed ganrif. Er mwyn deall pam, rhaid mynd yn nôl ym mhellach yn hanes Ewrop i'r 5ed ganrif.


Rhywbryd yn ystod yr 5ed ganrif syrthiodd yr Ymerodraeth Rufeinig yn orllewin Ewrop. A'r cyntaf i sefydlu Ymerodraeth bwerus ar ôl y Rhufeiniaid oedd Charles the Great (Charlemagne), yr enw a roddwyd a'r Ymerodraeth hyn oedd yr Ymerodraeth Carolingiad. Roedd rhaid i Siarl creu rhywle i reoli'r Ymerodraeth yn llwyddiannus, felly adeiladodd Palas Aachen yng nghanol yr Ymerodraeth (canol Yr Almaen fel rydym yn gweld Ewrop heddiw). Bwriad Siarl oedd dangos pŵer dros yr ymerodraeth gyda'r palas yma, pwrpas arall i'r palas oedd cael canolfan milwriaethus a gweinyddol canolog.

Cymerodd Siarl ysbrydoliaeth o syniad cynharach ar gyfer Palas Aachen, a hillforts y Rhufeiniaid oedd hyn. Cafodd hillforts eu defnyddio am gannoedd o flynyddoedd ar draws ledled y byd cyn i Siarl adeiladu Palas Aachen. Fel mae'r enw yn awgrymu, cafodd hillforts ei adeiladu ar ben allt fel amddiffyniad ar gyfer cymunedau a theuluoedd byw cyn y canol oesoedd. Felly mae'r syniad yma wedi cyrraedd cestyll Mwnt a Beili Wiliam o Normandi ym Mhrydain.

Parhaodd Ymerodraeth Siarl am tua 90 mlynedd yn unig a phan syrthiodd yr ymerodraeth, rhannodd y tir rhwng aelodau o'r aristocratiaid gan gynnwys uchelwyr (nobles) a Thywysogion. Yn y flwyddyn 911 rhoddwyd darn o dir yn Ffrainc i'r Normaniaid, lle cychwynnodd cymryd cymysgedd o syniadau i greu'r castell Mwnt a Beili. Cyn trechu (conquer) Prydain roedd Wiliam yn gyfarwydd iawn efo cestyll Mwnt a Beili a chafodd ei eni yng Nghastell Falaise yn Normandi. Roedd cestyll yn gyffredin iawn yn Ffrainc ac felly oedd yn fater o amser cyn i Wiliam dechrau adeiladu nhw ym Mhrydain. Ond, rhaid cofio'r ysbrydoliaeth gynnar iawn i

gestyll er enghraifft hyd yn oed yng Nghestyll cyntaf Wiliam ym Mhrydain yn Pevensey a Hastings, mae Pevensey yn addasiad o Fort Rhufeinig ac mae Hastings wedi adeiladu ar sefydliad hillfort o'r oes Haearn.

Tasg 2: I ddarganfod o le daeth cestyll yn wreiddiol darllenwch a dadansoddwch y darn darllen uchod i greu coeden teulu cestyll Prydain.



Tasg 2: Nodwch 4 gair allweddol o'r darn uchod yn y paragraff isod. Pam eich bod chi wedi dewis rhain?

.....

.....

.....

.....

.....

Tasg Clo: Beth fydd testyn gwrs nesaf yn eich barn chi??

.....

.....